

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 15 Tachwedd 0300 200 6565
2021 Deisebau@senedd.cymru
Amser: 14.00

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(Tudalennau 1 – 28)

2 Sesiwn Dystiolaeth – P-06-1224 Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl

(Tudalennau 29 – 33)

Jonathan Rhys Williams, Prif Ddeisebydd

3 Deisebau newydd

3.1 P-06-1185 Dylai cyfnod preswyllo 3 blynedd o leiaf fod yn ofynnol i bob ymgeisydd yn etholiadau'r Senedd

(Tudalennau 34 – 38)

3.2 P-06-1186 Dylid atal pobl nad ydynt wedi byw yng Nghymru ers o leiaf 6 mis rhag ymgeisio yn etholiadau'r Senedd

(Tudalennau 39 – 42)

3.3 P-06-1206 Adolygwch safonau Mynediad i Bractis Cyffredinol yng Nghymru yng ngoleuni pandemig

(Tudalennau 43 – 48)



- 3.4 P-06-1207 Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg
(Tudalennau 49 – 57)
- 3.5 P-06-1210 Ataliwch Lywodraeth Cymru rhag cyflwyno terfyn cyflymder cyffredinol o 20 milltir yr awr
(Tudalennau 58 – 63)
- 3.6 P-06-1211 Dylid cael gwared ar y camerâu cyflymder cyfartalog a'r terfyn cyflymder o 50mya ar yr M4 rhwng Casnewydd a Chaerdydd
(Tudalennau 64 – 73)
- 3.7 P-06-1213 Dylid gwahardd defnydd hamdden o Seadoo/sgïo jet yng Nghymru. Ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym
(Tudalennau 74 – 79)

4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 4.1 P-05-912 Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl
(Tudalennau 80 – 82)
- 4.2 P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid!
(Tudalennau 83 – 88)
- 4.3 P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru
(Tudalennau 89 – 90)
- 4.4 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn
(Tudalennau 91 – 94)

Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

4.5 P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONTFAEN RHAG EI DYMCHWEL

(Tudalennau 95 – 98)

Yr Amgylchedd a Materion Gwledig

4.6 P-05-895 Etifeddiaeth Rosa: Dylid cyflwyno cynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes

(Tudalennau 99 – 104)

4.7 P-05-1040 Cyflwyno moratoriwm ar gymeradwyo unrhyw losgyddion gwastraff newydd ar raddfa fawr yng Nghymru

(Tudalennau 105 – 107)

Llywodraeth Leol

4.8 P-05-1112 Helpwch gymunedau yng Nghymru i brynu asedau cymunedol: Gweithredwch Ran 5, Pennod 3 o Ddeddf Lleoliaeth 2011

(Tudalennau 108 – 114)

Addysg

4.9 P-06-1160 Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus

(Tudalennau 115 – 117)

4.10 P-06-1163 Dylid ymestyn y fwrariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

(Tudalennau 118 – 121)

4.11 P-06-1178 Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru

(Tudalennau 122 – 126)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6.

6 Trafod Sesiwn Dystiolaeth – P-06-1224 Dylunio cynllun peilot
Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys
amrywiaeth o bobl

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl.

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 15 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1262

Rhif y ddeiseb: P-06-1224

Teitl y ddeiseb: Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl.

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddylunio cynllun Incwm Sylfaenol Cyffredinol (ISC) yn ôl ardal ddaearyddol sy'n cynnwys plant, pobl gyflogedig, pobl ddi-waith a phensiynwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael gofal.

Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd ddeall sut y byddai'r polisi'n effeithio ar Gymru pe bai'n cael ei gyflwyno yfory.



1. Cefndir

Cyflwynwyd deiseb i ddylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol (ISC) 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl i'r Pwyllgor Deisebau.

Mae llawer o fodelau ISC, ond y ddealltwriaeth gyffredinol yw bod hyn yn disgrifio dull lle mae'r llywodraeth yn rhoi i oedolion daliad diamod safonol a rheolaidd, ni waeth beth fo'u hincwm arall. Cyfeirir ato weithiau fel 'incwm sylfaenol' lle mae grŵp penodol o bobl, yn hytrach na phob oedolyn, yn cael taliad. Mae rhai yn dadlau y dylai ISC fod yn ddigon i fyw arno ar ei ben ei hun; mae eraill yn cefnogi taliadau cynhwysol mwy cyfyngedig, ochr yn ochr â'r systemau nawdd cymdeithasol presennol.

Mae'r ysgrifennu helaeth ar Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn dangos cefnogaeth a beirniadaeth o amrywiaeth eang o safbwyntiau. Mae'r UBI Lab Network, Basic Income a Chymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnach yn galw am ISC. Mae eraill wedi mynegi safbwyntiau mwy drwgdybus, gan gynnwys y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, y Sefydliad Materion Economaidd, a Sefydliad Joseph Rowntree.

Mae cefnogwyr ISC yn dadlau bod incwm sylfaenol:

- yn rhywbeth y mae gan bob dinesydd hawl iddo, a'i fod yn ddiogelwch rhag tloidi ac yn gwella iechyd a llesiant;
- yn gallu rhannu incwm cenedlaethol yn decach;
- yn gallu talu am lafur di-gyflog, megis gofalu;
- yn rhoi rhyddid i weithwyr ddewis opsiynau eraill, efallai mwy entrepreneuriaidd; a'i fod
- yn syml ac yn haws ei ddeall na systemau cymhleth nawdd cymdeithasol.

Fodd bynnag, mae gwrthwynebwyr yn dadlau bod ISC:

- yn hynod gostus (gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn nodi y gallai ISC llawn yng Nghymru gostio £35-40 biliwn);
- yn ddiwahân, felly mae arian hefyd yn mynd at y rhai nad oes ei angen arnynt;
- yn cynrychioli newid sylweddol o systemau nawdd cymdeithasol presennol; ac
- yn gallu bod yn rhwystr ar gymhelliant i bobl chwilio am gyflogaeth.

1.1. Ymgymryd â pheilot

Megis dechrau y mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer peilot ISC, ond ymddengys eu bod yn canolbwyntio ar grŵp bach wedi'i dargedu o ymadawyr gofal. Mae buddion cynnal peilot yn cynnwys:

- Adeiladu ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd;
- Creu trafodaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol;
- Adeiladu sylfaen dystiolaeth ar effeithiau cymdeithasol a seicolegol incwm sylfaenol;
- Creu mewnwelediadau ymarferol, helpu i nodi canlyniadau anfwriadol a dileu unrhyw anawsterau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu a gweinyddu incwm sylfaenol; a
- Chasglu data ar effeithiau incwm sylfaenol y mae modd eu defnyddio i helpu ymhellach i lunio model cenedlaethol.

Mae nifer o unigolion a sefydliadau wedi cynnig dewisiadau amgen i'r cynigion presennol, gyda ffocws ar ymestyn y peilot. Fe wnaeth [UBI Lab Cymru](#), [Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol](#), [Sophie Howe](#), [Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod \(WEN\) Cymru](#), [Chwarae Teg](#) a'r [Basic Income Earth Network](#) ysgrifennu llythyr agored yn galw ar y Prif Weinidog i ystyried:

peilot ar Ymadawyr Gofal a Mwy sy'n cynnwys sampl gynrychioliadol ddemograffig o'r holl boblogaeth, yn ogystal â phobl sy'n gadael gofal.

Mae [Jonathan Rhys Williams](#) o UBI Lab Cymru wedi galw am beilot tair blynedd, wedi'i wasgaru'n ddaearyddol, heb brawf modd. Byddai'r cynllun yn cynnwys lleiafswm o ryw **5,000 o bobl**, a fyddai'n cael taliad wythnosol rhwng **£100 a £150**. Byddai'r peilot yn costio **£120 miliwn**.

Yn y '[Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol](#)', mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cefnogi dull tebyg, sy'n cynnwys peilot dwy flynedd heb brawf modd mewn lleoliad trefol a gwledig.

Mae'r felin drafod annibynnol [Autonomy](#) hefyd wedi galw am **beilot dwy flynedd** yn cynnwys **5000 o bobl**. Am gost amcangyfrifedig o **£99 miliwn**, mae'n argymhell cynnal peilot gyda chymuned gyfan mewn lleoliad penodol ac yn dadlau y byddai rhedeg peilot wedi'i dargedu at grŵp cymdeithasol penodol yn methu â chofnodi'r agwedd gyffredinol, ac yn cyfyngu ar y dysgu a'r mewnwelediadau.

Hoffai **Platfform** weld y peilot yn cynnwys pobl â diagnosis iechyd meddwl, a'r effaith ar lesiant pobl yn cael ei chynnwys fel rhan o'r gwerthusiad o'r peilot.

Yn ddiweddar, mae'r Sefydliad Materion Cymreig wedi cyhoeddi dau ddarn barn, **un yn dadlau** bod y cynllun peilot yn 'ffordd a allai drawsnewid profiad grŵp agored i niwed sy'n cael ei esgeuluso gan ein system nawdd cymdeithasol'. Ar y llaw arall, mae **ail ddarn** yn nodi'r farn nad yw'r cynllun peilot yn ddigon eang nac yn ddigon mawr.

Mae sawl gwlad arall wedi archwilio opsiynau ar gyfer gweithredu ISC drwy astudiaeth beilot. Cynhaliwyd Arbrawf Incwm Sylfaenol yn y **Ffindir** rhwng 2017 a 2018. Talwyd €560 y mis i 2,000 o bobl ddi-waith 25-58 oed. Canfu'r arbrawf bod yr effeithiau ar gyflogaeth yn fach, ond bod y derbynwyr yn fwy bodlon ar eu bywydau ac yn wynebu llai o straen meddyliol, a bod ganddynt ganfyddiad mwy cadarnhaol o'u lles economaidd. Mae cynlluniau peilot wedi cael eu cynnal mewn sawl sir yn **California**, ac yn Gorffennaf 2021, fe wnaeth deddfwyr California **gymeradwyo** rhaglen incwm gwarantedig a ariennir gan y dalaith sy'n galluogi taleithiau a siroedd i wneud cais am gyllid o **gronfa o \$35 miliwn** i gefnogi cynlluniau peilot sy'n blaenoriaethu **pobl ifanc sydd wedi gadael y system ofal a mamau beichiog**. Bydd y peilot yn para am bum mlynedd. O dan y cynlluniau, gall swyddogion lleol benderfynu ar y taliadau, y credir eu bod yn amrywio o \$500 i \$1,000. Bydd **dim rheolau o ran sut mae pobl yn gwario'r taliad**.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Er mai megis dechrau y mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer peilot ISC, fe wnaeth y Prif Weinidog roi manylion pellach ym mis Hydref a **chadarnhau** y byddai'r peilot yn paa oddeutu tair blynedd, yn cynnwys tua **250 o ymadawyr gofal**, ac yn 'anelu at y cyflog byw go iawn'.

Yn ystod y **Cyfarfod Llawn** ym mis Hydref, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r peilot yn cychwyn ym mis Ebrill 2022 ac eglurodd fod y gwaith parhaus i ddatblygu'r peilot wedi cael ei lunio gan gyngor gan y Fforwm Ymadawyr Gofal a Gofal yng Nghymru. Dywedodd y bydd y peilot yn rhoi 'gwybodaeth werthfawr i ni ar gyfer y dyfodol am sut y gallai'r cysyniad o incwm sylfaenol fod yn **berthnasol i grwpiau eraill yn ehangach ar draws poblogaeth Cymru**'.

Her allweddol i Lywodraeth Cymru fydd datblygu peilot sy'n cyd-fynd â'r setliad **datganoli**. **Dywedodd** Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (yn ei rôl flaenorol fel y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd) am dreialu ISC:

Dylunio cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl.

[...] na fyddai treial felly'n bosibl heb gydweithrediad gweithredol Llywodraeth y DU, a hynny oherwydd y rhyngweithio rhwng incwm sylfaenol cyffredinol a'r system dreth a budd-daliadau.

3. Camau gan Senedd Cymru

Mae'r diddordeb yn ISC wedi cynyddu yng Nghymru. Ar 30 Medi, fe wnaeth y Senedd drafod a **phasio cynnig** yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu treial ISC yng Nghymru.

Yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad, fe wnaeth y grŵp ymgyrchu UBI Lab Cymru sicrhau addewidion yn cefnogi peilot gan 105 o ymgeiswyr (etholwyd 25 ohonynt), ochr yn ochr ag ymrwymadau polisi ym maniffestos Plaid Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Werdd Cymru. Hefyd, fe wnaeth pedwar cyngor **yn Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Gwynedd** – basio cynigion yn galw am gynnal cynlluniau peilot yn eu hardal leo.

Er mwyn lliniaru effaith y pandemig, galwodd Adam Price AS, arweinydd Plaid Cymru, am gyflwyno ISC dros dro i gefnogi **pobl hunangyflogedig, gweithwyr llawrydd a'r rheini ar gontractau dim oriau**. Mae Jane Dodds, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, wedi cefnogi peilot Llywodraeth Cymru, ond mae wedi galw am ehangu'r cynllun i **gynnwys mwy o bobl**.

4. Camau gweithredu gan Senedd y DU

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn cynnal ymchwiliad i'r system fudd-daliadau yng Nghymru, a chymerodd dystiolaeth ar ISC yn ystod ei **sesiwn ar 3 Tachwedd**. Bwriedir cynnal sesiynau tystiolaeth pellach ym mis Rhagfyr, ac mae'n debygol y caiff adroddiad ei gyhoeddi ddechrau 2022.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Gofyniad preswyllo ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 15 November 2021

Cyfeirnod: SR21/837-12

Rhif y ddeiseb: P-06-1185

Teitl y ddeiseb: Dylai cyfnod preswyllo 3 blynedd o leiaf fod yn ofynnol i bob ymgeisydd yn etholiadau'r Senedd

Geiriad y ddeiseb:

Cafwyd sawl achos proffil uchel pan fo pobl wedi bod yn ymgeiswyr i'r Senedd, neu wedi cael eu hethol iddi, er nad oeddent erioed wedi byw yng Nghymru.

Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i Aelodau etholedig o'r Senedd fod wedi byw yng Nghymru ers o leiaf 3 blynedd cyn ymgeisio, er mwyni sicrhau eu bod yn deall y cymunedau y maent am eu cynrychioli.

Credwn fod parasiwtio ymgeiswyr i'r Senedd o'r tu allan i Gymru yn tanseilio gwleidyddiaeth Cymru o ran ansawdd ac uniondeb, a rhaid i hyn gael ei atal.



1. Ymgeiswyr yn Etholiad y Senedd 2021

Mae'r deisebd yn cyfeirio at '*sawl achos proffil uchel pan fo pobl wedi bod yn ymgeiswyr i'r Senedd, neu wedi cael eu hethol iddi, er nad oeddent erioed wedi byw yng Nghymru*'.

Adroddwyd bod o leiaf 23 o'r ymgeiswyr yn etholiad y Senedd ym mis Mai 2021 yn preswyllo y tu allan i Gymru. Yn ystod y Bumed Senedd, adroddwyd nad oedd ond un Aelod o'r Senedd yn 'cyfaddef' ei fod yn byw y tu allan i Gymru.

Mae 'parasiwtio' yn derm sy'n disgrifio'r arfer o gynnig ymgeiswyr gwleidyddol nad oes ganddynt gysylltiad o reidrwydd a'r etholaethau neu ranbarthau y byddant yn sefyll ynnddynt.

2. Dim gofyniad preswyllo i ymgeiswyr

I ymgeisio yn etholiadau'r Senedd, rhaid i berson:

- fod o leiaf 18 mlwydd oed,
- bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd tramor cymwys, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig; a
- pheidio â bod yn anghymwys ar sail swydd, methdaliad neu garchariad.

Nid oes dim gofyniad o dan y gyfraith i ymgeisydd fod yn breswlydd nac yn etholwr cofrestredig yng Nghymru.

3. Cymhwysedd i weithredu gofyniad preswyllo

Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â rhai elfennau o etholiadau datganoledig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017).

Nid yw gofynion sefydlog ynghylch ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd yn fater pendol a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P 06 1185
Ein cyf/Our ref FM -/10257/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

3 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i ddeisebau P-06-1185 a P-06-1186 sy'n ymwneud â gosod gofyniad cyfnod preswyllo ar ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad i ymgeiswyr y Senedd fod yn byw yng Nghymru, cyn iddynt sefyll i gael eu hethol nac yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Fodd bynnag, i sefyll fel ymgeisydd, mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn un o'r canlynol:

- Dinesydd Prydain;
- Dinesydd cymwys o'r Gymanwlad;
- Dinesydd tramor cymwys;
- Dinesydd o Weriniaeth Iwerddon;
- Dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig.

Mater i'r pleidiau gwleidyddol yw dewis ymgeiswyr, a gall y dulliau a ddefnyddir ar gyfer dewis ymgeiswyr amrywio. Mewn rhai achosion, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis ar gyfer etholaeth neu ranbarth gan arweinwyr y blaid. Mewn achosion eraill, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis drwy bleidlais gan gangen leol y blaid. Mae ymgeiswyr annibynnol hefyd sy'n cael dewis drostynt eu hunain ym mha etholaeth y byddant yn sefyll.

Mae'r deisebau'n codi cwestiynau diddorol am yr hyn sy'n gwneud cynrychiolydd effeithiol ac ynghylch y berthynas rhwng yr ymgeisydd a'u darpar etholwyr. Bydd y cynrychiolydd etholedig yn cael ei ddewis gan bleidleiswyr i siarad ar eu rhan yn y Senedd ac er mwyn gallu gwneud hynny mae angen iddo fod â gwybodaeth am y bobl sy'n byw yn yr etholaeth a'r heriau unigryw sy'n eu hwynebu. Mae angen i'r Aelod hefyd sicrhau hyder ei etholwyr os yw'n dymuno cael ei ailethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'n hawdd mesur effaith statws preswyllo ar effeithiolrwydd ymgeisydd. Mewn egwyddor, bydd gan berson sydd wedi byw ac wedi'i fagu mewn ardal fwy o wybodaeth am y materion sy'n wynebu'r etholwyr, ar sail ei brofiad ei hun. Fodd bynnag, gellir dysgu gwybodaeth leol o'r fath a gellir dadlau bod gallu ymgeisydd i feithrin cysylltiadau a datblygu perthynas gyda'i etholwyr yn llawer pwysicach. Er y gall gwybodaeth leol flaenorol fod o fantais, mae effeithiolrwydd ymgeisydd yn ddibynnol ar ystod eang o sgiliau.

Byddai gwahardd unigolion sy'n byw y tu allan i Gymru rhag ymgeisio yn atal y rheini sydd â chysylltiadau a diddordeb gwirioneddol rhag sefyll fel ymgeiswyr. Er enghraifft, efallai bod unigolyn wedi ei eni a'i fagu yng Nghymru, ac wedi symud i ffwrdd yn ddiweddar iawn, ond byddai'r unigolyn yn anghymwys o dan gynigion y ddeiseb, er bod ganddo gysylltiad gwirioneddol. Byddai hyn hefyd yn gorfodi ymgeiswyr o'r fath i wneud newidiadau sylweddol a chostus i'w trefniadau byw cyn gwybod i sicrwydd eu bod wedi'u hethol.

Efallai y bydd cynnig o'r fath yn fwy priodol ar gyfer cyfnod yr Aelod mewn swydd. Ar ôl cael ei ethol i'r Senedd, nid yw'n gwneud llawer o synnwyr i Aelod fyw y tu allan i Gymru. Er bod technoleg wedi ein galluogi i gyfathrebu dros bellter, gan alluogi i fwy o bobl weithio o bell, ni fydd hyn bob amser yn fanteisiol i waith aelod, lle bydd angen creu cysylltiadau yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cynnal cymorthfeydd rheolaidd, mynd i ddiwyddiadau lleol ac ymweld â busnesau a manau o ddiddordeb yn yr ardal. Gall gwaith achos yn yr etholaeth gynnwys achosion sensitif ac emosiynol iawn eu natur, a gallai gweithio o bell fod yn rhwystr ychwanegol diangen. Nid yw hyn yn golygu na all Aelodau wneud peth o'u gwaith o bell, ond mae'n anrffod bod llawer iawn o waith Aelodau yn gofyn am eu presenoldeb yn yr etholaeth.

Er mwyn gweithredu gofyniad preswyllo ar gyfer ymgeiswyr neu Aelodau o'r Senedd, byddai angen ymgynghori gydag amryw o randdeiliaid i ystyried goblygiadau llawn newid o'r fath ar Aelodau presennol a darpar Aelodau. Byddai'n rhaid ystyried yr effaith ar hawliau'r rhai dan sylw, i ba raddau y mae angen darpariaeth o'r fath i gyflawni nodau penodol, gan gynnwys ei gymesuroldeb, ac a oes unrhyw ddewisiadau eraill a fyddai'n cyflawni'r un nodau neu ffyrdd o leihau unrhyw niweidiau posibl. Yn yr un modd ag y dylid diogelu'r hawl i bleidleisio, ni ddylid chwaith wrthod yr hawl i unigolion sefyll i gael eu hethol heb reswm da.

Yn gywir,



MARK DRAKEFORD

Gofyniad preswyllo ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 15 November 2021

Cyfeirnod: SR21/837-13

Rhif y ddeiseb: P-06-1186

Teitl y ddeiseb: Dylid atal pobl nad ydynt wedi byw yng Nghymru ers o leiaf 6 mis rhag ymgeisio yn etholiadau'r Senedd

Geiriad y ddeiseb:

Mae rhai pleidiau gwleidyddol yn parasiwtio ymgeiswyr i mewn o rannau eraill o'r DU ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021.

Drwy gyflwyno'r ymgeiswyr hyn mae gwerth y Senedd yn cael ei lastwreiddio gan nad ydynt yn gyfarwydd â phobl Cymru, heb sôn am yr etholwyr y maent i fod i'w cynrychioli.



1. Ymgeiswyr yn Etholiad y Senedd 2021

Adroddwyd bod o leiaf 23 o'r ymgeiswyr yn etholiad y Senedd yn 2021 yn preswyllo y tu allan i Gymru.

Mae 'parasiwtio' yn derm sy'n disgrifio'r arfer o gynnig ymgeiswyr gwleidyddol nad oes ganddynt gysylltiad o reidrwydd a'r etholaethau neu ranbarthau y byddant yn sefyll ynddynt.

2. Dim gofyniad preswyllo i ymgeiswyr

I ymgeisio yn etholiadau'r Senedd, rhaid i berson:

- fod o leiaf 18 mlwydd oed,
- bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd tramor cymwys, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig; a
- pheidio â bod yn anghymwys ar sail swydd, methdaliad neu garchariad.

Nid oes dim gofyniad o dan y gyfraith i ymgeisydd fod yn breswlydd nac yn etholwr cofrestredig yng Nghymru.

3. Cymhwysedd i weithredu gofyniad preswyllo

Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â rhai elfennau o etholiadau datganoledig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017).

Nid yw gofynion sefydlog ynghylch ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd yn fater pendol a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P 06 1185
Ein cyf/Our ref FM -/10257/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

3 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i ddeisebau P-06-1185 a P-06-1186 sy'n ymwneud â gosod gofyniad cyfnod preswyllo ar ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad i ymgeiswyr y Senedd fod yn byw yng Nghymru, cyn iddynt sefyll i gael eu hethol nac yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Fodd bynnag, i sefyll fel ymgeisydd, mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn un o'r canlynol:

- Dinesydd Prydain;
- Dinesydd cymwys o'r Gymanwlad;
- Dinesydd tramor cymwys;
- Dinesydd o Weriniaeth Iwerddon;
- Dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig.

Mater i'r pleidiau gwleidyddol yw dewis ymgeiswyr, a gall y dulliau a ddefnyddir ar gyfer dewis ymgeiswyr amrywio. Mewn rhai achosion, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis ar gyfer etholaeth neu ranbarth gan arweinwyr y blaid. Mewn achosion eraill, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis drwy bleidlais gan gangen leol y blaid. Mae ymgeiswyr annibynnol hefyd sy'n cael dewis drostynt eu hunain ym mha etholaeth y byddant yn sefyll.

Mae'r deisebau'n codi cwestiynau diddorol am yr hyn sy'n gwneud cynrychiolydd effeithiol ac ynghylch y berthynas rhwng yr ymgeisydd a'u darpar etholwyr. Bydd y cynrychiolydd etholedig yn cael ei ddewis gan bleidleiswyr i siarad ar eu rhan yn y Senedd ac er mwyn gallu gwneud hynny mae angen iddo fod â gwybodaeth am y bobl sy'n byw yn yr etholaeth a'r heriau unigryw sy'n eu hwynebu. Mae angen i'r Aelod hefyd sicrhau hyder ei etholwyr os yw'n dymuno cael ei ailethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'n hawdd mesur effaith statws preswyllo ar effeithiolrwydd ymgeisydd. Mewn egwyddor, bydd gan berson sydd wedi byw ac wedi'i fagu mewn ardal fwy o wybodaeth am y materion sy'n wynebu'r etholwyr, ar sail ei brofiad ei hun. Fodd bynnag, gellir dysgu gwybodaeth leol o'r fath a gellir dadlau bod gallu ymgeisydd i feithrin cysylltiadau a datblygu perthynas gyda'i etholwyr yn llawer pwysicach. Er y gall gwybodaeth leol flaenorol fod o fantais, mae effeithiolrwydd ymgeisydd yn ddibynnol ar ystod eang o sgiliau.

Byddai gwahardd unigolion sy'n byw y tu allan i Gymru rhag ymgeisio yn atal y rheini sydd â chysylltiadau a diddordeb gwirioneddol rhag sefyll fel ymgeiswyr. Er enghraifft, efallai bod unigolyn wedi ei eni a'i fagu yng Nghymru, ac wedi symud i ffwrdd yn ddiweddar iawn, ond byddai'r unigolyn yn anghymwys o dan gynigion y ddeiseb, er bod ganddo gysylltiad gwirioneddol. Byddai hyn hefyd yn gorfodi ymgeiswyr o'r fath i wneud newidiadau sylweddol a chostus i'w trefniadau byw cyn gwybod i sicrwydd eu bod wedi'u hethol.

Efallai y bydd cynnig o'r fath yn fwy priodol ar gyfer cyfnod yr Aelod mewn swydd. Ar ôl cael ei ethol i'r Senedd, nid yw'n gwneud llawer o synnwyr i Aelod fyw y tu allan i Gymru. Er bod technoleg wedi ein galluogi i gyfathrebu dros bellter, gan alluogi i fwy o bobl weithio o bell, ni fydd hyn bob amser yn fanteisiol i waith aelod, lle bydd angen creu cysylltiadau yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cynnal cymorthfeydd rheolaidd, mynd i ddiwyddiadau lleol ac ymweld â busnesau a manau o ddiddordeb yn yr ardal. Gall gwaith achos yn yr etholaeth gynnwys achosion sensitif ac emosiynol iawn eu natur, a gallai gweithio o bell fod yn rhwystr ychwanegol diangen. Nid yw hyn yn golygu na all Aelodau wneud peth o'u gwaith o bell, ond mae'n anrffod bod llawer iawn o waith Aelodau yn gofyn am eu presenoldeb yn yr etholaeth.

Er mwyn gweithredu gofyniad preswyllo ar gyfer ymgeiswyr neu Aelodau o'r Senedd, byddai angen ymgynghori gydag amryw o randdeiliaid i ystyried goblygiadau llawn newid o'r fath ar Aelodau presennol a darpar Aelodau. Byddai'n rhaid ystyried yr effaith ar hawliau'r rhai dan sylw, i ba raddau y mae angen darpariaeth o'r fath i gyflawni nodau penodol, gan gynnwys ei gymesuroldeb, ac a oes unrhyw ddewisiadau eraill a fyddai'n cyflawni'r un nodau neu ffyrdd o leihau unrhyw niweidiau posibl. Yn yr un modd ag y dylid diogelu'r hawl i bleidleisio, ni ddylid chwaith wrthod yr hawl i unigolion sefyll i gael eu hethol heb reswm da.

Yn gywir,



MARK DRAKEFORD

Adolygwch safonau Mynediad i Bractis Cyffredinol yng Nghymru yng ngoleuni pandemig

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021

Cyfeirnod: SR21/1044-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1206

Teitl y ddeiseb: Adolygwch safonau Mynediad i Bractis Cyffredinol yng Nghymru yng ngoleuni pandemig

Geiriad y ddeiseb:

Mae meddygon teulu yng Nghymru wedi cael targed anghyraeddadwy o ateb 90% o alwadau o fewn 2 funud er mwyn cael cyllid llawn. Mae hyn bron yn amhosibl ei gyflawni o dan amgylchiadau arferol ond oherwydd y galw cynyddol a phrinder staff mae hyn yn afrealistig yn ystod pandemig.

1. Cefndir

Ar 20 Mawrth 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Safonau Gwasanaethau ar gyfer Mynediad at Wasanaethau Meddygon Teulu y tu mewn i Oriau Arferol. Yn seiliedig ar fesuryddion clir, cyflawniadau disgwylidiedig erbyn mis Mawrth 2021 ac wedi'u cefnogi gan garreg filltir cyflawni o dan Fodel Gofal Sylfaenol Cymru, mae'r Safonau yn gosod



gofynion clir ar arferion o ran isafswm disgwyliadau sy'n ymwneud â mynediad, gan gynnwys mwy o arlwy digidol.

Cyhoeddwyd y Safonau Mynediad ar gyfer 2019/20 ym mis Hydref 2019, gan gynnwys y gofyniad y dylid ateb 90% o alwadau o fewn 2 funud i'r neges a recordiwyd ddod i ben.

2. Datblygu'r Safonau Mynediad

Cafodd y Safonau Mynediad ar gyfer 2020/21 (a gyhoeddwyd fis Hydref 2020) eu haileirio ychydig, gan ei gwneud yn ofynnol i 90% o alwadau gael eu hateb o fewn 2 funud ar ôl i'r neges ragarweiniol ddod i ben. Nododd y canllawiau ar y Safonau:

The Standards set out within this guidance have been amended from the 2019/20 guidance, to take account of changes in working practice necessitated by the Covid-19 pandemic. All amendments have been agreed between Welsh Government, GPC Wales and NHS Wales.

Ar 21 Mai 2021 cyhoeddodd Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) ddiweddariad ar gontract GMS 2020/21 ar gyfer Cymru. Nododd y BMA y byddai'r safonau mynediad presennol yn parhau i fod ar waith am weddill 2020/21, ar ôl eu cyflwyno yn 2019, ond y byddai cam newydd o'r safonau yn cael ei gyflwyno ar gyfer 2021 ymlaen ac yn cael ei drafod yn barhaus mewn trafodaethau yn y dyfodol.

Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau atodol ar gyfer contract GMS Cymru 2020/21 diwygiedig. Maent yn ategu canllawiau 2019/20 a chanllawiau Hydref 2020, i ystyried newidiadau mewn arferion gwaith sy'n ofynnol yn sgil pandemig COVID-19. Maent yn nodi y cytunwyd ar yr holl newidiadau trwy'r dull teirochrog rhwng Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru a GIG Cymru, ac maent yn nodi mewn perthynas â safonau mynediad:

The last year has not provided a true platform to show how the current standards have improved access. It was agreed that a further year of the current standards would be maintained to 31 March 2022 to allow the measures to embed and a true measurement taken of how effective the standards have been in improving access for all.

Contractors will be paid annually for the standards completed during a QAIF (Access) year subject to evidencing that they have complied with

the relevant access standards for at least one calendar month prior to the end of the financial year for which payment is being claimed. Contractors are expected to achieve standards 1 to 7 by 31 March 2022 and are required to report their achievement progress at the end of each quarter. The below standards remain for 2021/22. (t.4)

Roedd y Safonau diweddaraf hyn yn cynnwys:

Standard 2: People receive a prompt response to their contact with a practice via telephone. **Achievement for this Standard at the end of March 2021 will be carried forwards with achievement for this standard being counted as the same as at March 2020, with practices retaining the ability to evidence achievement if they didn't last year. Full achievement will be required in 2022 to receive the payment for this standard.** (t.5)

3. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

Ar 12 Hydref 2021, ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb, gan gydnabod bod pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau aruthrol ar yr holl system iechyd a gofal cymdeithasol, gan nodi:

Cafodd llythyr ei anfon at holl feddygon teulu Cymru ar 2 Mawrth 2021 yn cydnabod nad oedd y flwyddyn a oedd newydd fynd heibio wedi bod yn blatfform cywir ar gyfer asesu sut y mae'r safonau mynediad presennol wedi gwella mynediad. Cytunwyd i ymestyn y cyllid am flwyddyn arall mewn perthynas â'r safonau i 31 Mawrth 2022, er mwyn creu cyfle i ymgorffori'r mesurau, a gwneud asesiad cywir o ran pa mor effeithiol y bu'r safonau wrth wella mynediad i bawb.

[...] Mae'r Safonau Mynediad, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau iddynt, yn cael eu mesur a'u hariannu fel rhan o'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol, ac felly maent yn rhan o'r negodiadau blynyddol rhwng Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru, a GIG Cymru. Dechreuodd y negodiadau contract teirochrog ym mis Gorffennaf, a pharhau y mae'r negodiadau hynny, a byddaf yn gwneud datganiad ar ôl iddynt ddod i ben.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1206
Ein cyf/Our ref EM/12451/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Medi am Ddeiseb P-06-1206 ynghylch adolygu safonau mynediad i bractis cyffredinol yng Nghymru yng ngoleuni'r pandemig.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau anferth ar y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan, ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r proffesiwn a staff ein holl bractisau am ymateb mewn ffordd mor hyblyg ac arloesol sydd wedi caniatáu iddynt barhau i ddarparu gofal i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Cafodd llythyr ei anfon at holl feddygon teulu Cymru ar 2 Mawrth 2021 yn cydnabod nad oedd y flwyddyn a oedd newydd fynd heibio wedi bod yn blatfform cywir ar gyfer asesu sut y mae'r safonau mynediad presennol wedi gwella mynediad. Cytunwyd i ymestyn y cyllid am flwyddyn arall mewn perthynas â'r safonau i 31 Mawrth 2022, er mwyn creu cyfle i ymgorffori'r mesurau, a gwneud asesiad cywir o ran pa mor effeithiol y bu'r safonau wrth wella mynediad i bawb.

Ar hyn o bryd, mae 76% o'r holl bractisau meddygon teulu yng Nghymru wedi cyflawni pob un o'r safonau mynediad i wasanaethau meddygol cyffredinol yn ystod oriau agor meddygfeydd, o gymharu â 65% o bractisau'r llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant mawr y gwaith i wella mynediad at ofal sylfaenol i gymunedau ledled Cymru, sef gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo.

Mae'r Safonau Mynediad, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau iddynt, yn cael eu mesur a'u hariannu fel rhan o'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol, ac felly maent yn rhan o'r negodiadau blynyddol rhwng Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru, a GIG Cymru. Dechreuodd y negodiadau contract teirochrog ym mis Gorffennaf, a pharhau y mae'r negodiadau hynny, a byddaf yn gwneud datganiad ar ôl iddynt ddod i ben.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 15 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1044-8

Rhif y ddeiseb: P-06-1207

Teitl y ddeiseb: Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg

Geiriad y ddeiseb: Dylai'r Senedd, a chyrrff eraill, ddechrau defnyddio ymadroddion Cymraeg os ydynt am gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus, rhaid iddynt osod esiampl i eraill. Yn hytrach na chyfeirio at Gaerdydd yn ôl ei henw Saesneg, 'Cardiff', defnyddiwch ei henw Cymraeg yn lle hynny. Wedi'r cyfan, nid yw siarad Cymraeg yng Nghymru yn drosedd mwyach - ydyw?

"Gair i gall" mae'n bryd arwain drwy esiampl.



1. Cefndir

Mae enwau pentrefi, trefi a dinasoedd Cymru wedi datblygu dros gyfnod o ddwy fileniwm. Er bod **mwyafrif yr enwau lleoedd yng Nghymru yn Gymraeg**, mae tarddiad rhai enwau lleoedd yn Saesneg, Ffrangeg, Lladin, Gwyddeleg, Norseg a Brythoneg (gan esblygu i ddod yn *Cymraeg* fel rydym yn ei hadnabod heddiw).

Mae enghreifftiau o rai **enwau lleoedd Cymraeg yn unig** y gellir eu hadnabod yn cynnwys Aberystwyth, Bangor, Tonypany, Penarth a Phontypridd. Fodd bynnag, mae sawl enghraifft o ddinasoedd, trefi a phentrefi yng Nghymru sydd ag enw Cymraeg a Saesneg.

Mae gan rai o'r lleoedd hynny sydd ag enwau Cymraeg a Saesneg **sillafu ac ynganiad tebyg iawn** yn y ddwy iaith. Lleoedd fel:

- *Caerffili* - Caerphilly;
- *Caerdydd* - Cardiff;
- *Merthyr Tudful* - Merthyr Tudful;
- *Treorci* - Treorchy.

Mae Dr. Dylan Foster Evans yn ymhelaethu ar esblygiad enwau lleoedd Cymraeg yn yr erthygl fer hon - [Enw da yw'r trysor gorau](#). Mae'n nodi bod Caerdydd, er enghraifft, 'yn deillio o'r ffurf ganoloesol *Caerdyf* (sydd hefyd yn rhoi *Cardiff* yn y Saesneg). Mae'n nodi bod ieithyddion yn credu bod yr enw'n debygol 'wedi ei lunio'n gyntaf yn yr iaith Frythoneg, yn y cyfnod pan oedd y Rhufeiniaid yn byw yng Nghaerdydd tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl'.

Mae enghreifftiau o enwau Saesneg fel Flint (*Y Fflint*), Wrexham (*Wreccsam*) a Caldicot (*Cil-y-coed*) sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cymry yn hytrach na'r ffordd arall. Yn yr un modd, yr enw gwreiddiol ar Fiwmares oedd yr enw Normanaidd-Ffrangeg - Beaumaris.

Mae gan leoedd eraill yng Nghymru enwau amgen nad ydynt yn gysylltiedig â'i gilydd. Dyma enghreifftiau:

- Newport - *Casnewydd* (mae'r Gymraeg yn golygu Castell Newydd);
- Swansea (yn deillio o'r Norseg sy'n golygu Ynys Svein) - *Abertawe* (mae'r Gymraeg yn golygu Aber Afon Tawe);
- Brecon (yn deillio o Deyrnas Gymreig Brycheiniog) - *Aberhonddu* (daw'r Gymraeg o Afon Honddu);

- Anglesey (yn deillio eto o Norsege - *Ongul*), tra bo'r enw Cymraeg *Môn*, wedi'i gofnodi gyntaf fel Lladin *Mona*.

Mae enghreifftiau o enwau lleoedd Cymraeg wedi'u Seisnigeiddio yn peidio â chael eu derbyn neu eu defnyddio'n raddol, gan gynnwys Caernarvon (Caernarfon), Conway (Conwy), Portmadoc (Porthmadog) a Llanelly (Llanelli).

Mae hefyd lleoedd lle mae anghytundebau parhaus ynghylch p'un a ddylid defnyddio'r sillafu Cymraeg yn gyfan gwbl ai peidio, fel yn Varteg (Farteg) sydd wedi cael rhywfaint o gyhoeddusrwydd yn ddiweddar.

2. Y Panel Safoni Enwau Lleoedd

Mae Comisiynydd y Gymraeg, corff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn gyfrifol am roi cyngor ar y ffurfiau safonol o enwau lleoedd yng Nghymru. Mae rhestr o ffurfiau safonol enwau Cymraeg pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru ar gael ar-lein i unrhyw un sydd am ei defnyddio.

Sefydlodd y Comisiynydd panel o arbenigwyr i weithio ar ffurf safonol enwau lleoedd Cymru a gwneud argymhellion arnynt. Mae gwefan y Comisiynydd yn nodi bod y Panel Safoni Enwau Lleoedd yn ystyried 'ystyr, hanes a tharddiad yr enwau lleoedd ynghyd â'r defnydd cyfredol ohonynt wrth lunio'i argymhellion'. Mae'r panel hefyd yn cael ei arwain gan y Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru. Mae Adran 9 - *Ffurfiau deuol* yn nodi'r cyngor a ganlyn i'r panel ei ystyried:

Dylid anelu at **arfer un ffurf** yn unig pan nad oes **ond llythyren neu ddwy** o wahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', **gan dueddu at y ffurf Gymraeg**. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordians ac Awdurdodau'r Priffyrdd. Eithr dylid cydnabod amrywiadau sefydlog (Caeriw/Carew, Biwmares/Beaumaris, Y Fflint/Flint, Wrecsam/Wrexham).

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae'r Senedd wedi ystyried sawl deiseb yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn ymwneud ag enwau lleoedd Cymru ac enwau tai Cymru. Yn ystod hanner cyntaf 2020, cyflwynwyd deiseb a oedd yn galw am fynd yn ôl i sillafu enwau lleoedd Cymraeg yn y ffordd Gymraeg. Dyma'r camau penodol y galwodd y deisebwyr amdanynt:

Mae gan Gymru lawer o enwau lleoedd sydd wedi'u Seisnigeiddio'n ddiangen, ac sydd yn aml wedi'u disodli gan ffurfiau Seisnigedig am

ddim rheswm da. Rwyf i, a'r rhai sydd wedi llofnodi isod, yn deisebu Cynulliad Cymru i weithredu ac i newid y ffurfiau Seisnigaidd hyn o enwau Cymraeg, drwy Gymru gyfan, ac i adfer eu sillafiadau Cymraeg gwreiddiol.

Trafododd Pwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd y ddeiseb ym mis Mehefin 2020. Casglodd y ddeiseb 1,096 o lofnodion.

Yn ystod ail hanner 2020, cafodd deiseb yn galw am ddeddfwriaeth i atal newid enwau Cymraeg tai ei chyflwyno i'r Senedd. Casglodd y ddeiseb hon 18,103 o lofnodion, a chafodd ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Ionawr 2020. Yn ystod y ddadl, nododd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg blaenorol:

Rhaid imi gyfaddef bod hwn yn fater dwi yn poeni amdano, ond mae yna broblemau ymarferol mae'n rhaid inni edrych arnyn nhw...dwi yn hapus i weld a yw hi'n bosibl i ni wneud rhywbeth yn statudol hefyd. Ond, mae'n rhaid i fi ddweud, dwi ddim yn siŵr a yw hi'n bosibl, ond dwi'n fwy na hapus i weld a allwn ni symud ymhellach yn y maes yma.

Yn 2018, cafodd deiseb yn galw ar y Senedd i ddiogelu a hyrwyddo enwau lleoedd Cymru ei gyflwyno. Casglodd 431 o lofnodion a dyma'r camau penodol y galwodd y deisebydd amdanynt:

Mae mwy a mwy o enwau lleoedd a thai Cymraeg yn cael eu newid i enwau Saesneg. Mae hyn yn arwain at dranc diwylliant lleol ac un o'r elfennau sy'n gwneud Cymru'n unigryw... Dylid diogelu hen enwau Cymraeg ar leoedd ac adeiladau o dan y gyfraith, a dylai fod yn orfodol i ddatblygiadau newydd gael enwau Cymraeg er mwyn diogelu ein diwylliant a'n hiaith unigryw.

Flwyddyn yn gynharach, enillodd Dai Lloyd AS y bleidlais i gynnig bil Aelod: Datblygu Bil Diogelu Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mawrth 2017.

Nid oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bil, ac ni chafodd ganiatâd i fynd rhagddo.

Fel rhan o'i ymchwiliad yn 2017 i'r Amgylchedd Hanesyddol, bu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (y Bumed Senedd) yn trafod y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru. Nododd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd ati i adolygu'r mater a bod yn barod i gyflwyno mesur diogelu arall ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol os na fydd y rhestr bresennol yn effeithiol.

4. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Amlinellodd Llywodraeth flaenorol Cymru ei gweithgarwch yn y maes hwn mewn ymateb i'r ddeiseb yn 2018 yn galw ar y Senedd i ddiogelu a hyrwyddo enwau lleoedd Cymru. Nododd, ar ôl pasio Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol.

Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y rhestr pan fo'u swyddogaethau'n cynnwys enwi neu ailenwi lleoedd. Mae hyn yn cynnwys enwi neu ailenwi strydoedd, adeiladau a lleoedd eraill, naill ai'n uniongyrchol neu gan barti arall. Y bwriad yw y bydd y rhestr a'r canllawiau statudol gyda'i gilydd yn arwain at ostyngiad yn nifer y newidiadau ffurfiol i enwau eiddo hanesyddol.

Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru:

...nid yw'r mesurau hyn yn mor bell â diogelu enwau lleoedd hanesyddol yn ffurfiol. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol yn statudol wrth fynd ati i ddatblygu Deddf 2016.

Mewn ymateb i'r ddeiseb yn galw am fynd yn ôl i sillafu enwau lleoedd Cymraeg yn y ffordd Gymraeg, nododd Gweinidog y Gymraeg ar y pryd:

Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am roi cyngor i unigolion a sefydliadau am ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Mae Rhestr y Comisiynydd o Enwau Lleoedd Safonol Cymru yn adnodd ar-lein defnyddiol, y gellir ei chwilio neu y gellir ei lawrlwytho, i ddod o hyd i enwau safonol pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru...

Fodd bynnag, rôl y Comisiynydd yw awgrymu ffurfiau a sillafiadau enwau lleoedd, yn hytrach na'u gorfodi.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1207
Ein cyf/Our ref JMEWL/11086/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr am ddeiseb yn galw ar y Senedd, a chyrrff eraill, i gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg. Er bod y ddeiseb yn cyfeirio at y Senedd yn benodol, rwy'n cymryd yn ganiataol ei fod yn cyfeirio hefyd at Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru.

I ateb y pwynt cyntaf, ynghylch cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch tyfu'r Gymraeg. Mae ein strategaeth *Cymraeg 2050*, sy'n gosod uchelgais ar gyfer sut rydym am weld y Gymraeg yn datblygu ac ehangu, wedi gwreiddio, a'n targedau o ran cynyddu nifer y siaradwyr i filiwn a dyblu defnydd dyddiol, yn gyrru polisïau ledled y Llywodraeth. Yn hynny o beth, mae'r strategaeth wedi gwneud llawer iawn i newid y disgwrs o gwmpas yr iaith, ac i'w throï'n sgwrs bositif.

O droi at y sylw mewn perthynas ag enwau lleoedd, mae ein Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf yn cynnwys ymrwymiad y byddwn yn: Gweithio i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg.

Fel y gwyddoch, mae'r maes hwn yn un cymhleth, ac mae'n cynnwys nifer o haenau sydd oll angen eu trin mewn ffordd wahanol. Fel rheol rydym yn rhannu'r maes yn 3 rhan:

1. Enwau dinasoedd, trefi a phentrefi
2. Enwau hanesyddol a daearyddol
3. Enwau tai

Mae'r 3 maes hyn yn cael eu dwyn ymlaen ar y cyd rhwng Cadw, Is-adran y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg, gyda Cadw'n gyfrifol am y polisi enwau hanesyddol a'r Comisiynydd yn safoni enwau dinasoedd, trefi a phentrefi. Ymddangosodd fy rhagflaenydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg gerbron y Pwyllgor ym mis Ionawr eleni, gan ddarparu papur yn ymdrin â'r meysydd hyn. Mae ein gwaith yn hyn o beth yn parhau, ac rydym wrthi'n archwilio'r opsiynau ar sut orau i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 54
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Serch hynny, mae gofynion y deisebwr yn mynd i dir ychydig yn wahanol, gan ofyn i ni arddel enwau Cymraeg yn unig ar drefi a dinasoedd.


Mewn rhai enghreifftiau, lle mae ynganiad enwau Cymraeg a Saesneg ar dref neu ddinas mor debyg i'w gilydd bod dadl gref dros lynu at un sillafiad, rwy'n credu y gall wneud synnwyr i lynu wrth y sillafiad Cymraeg. Yn hyn o beth, byddwn yn cefnogi'r egwyddor a hyrwyddir gan Gomisiynydd y Gymraeg, sef y dylem anelu at un ffurf pan fod ond ambell i lythyren o wahaniaeth rhwng y ffurfiau Cymraeg a'r rhai Saesneg. Yn y cyd-destun hwn, roedd ein polisi drafft ar Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg (daeth ymgynghoriad yn ei gylch i ben ym mis Gorffennaf) yn nodi'r angen i hyrwyddo a phwysleisio statws enwau lleoedd sydd wedi eu safoni, a chodi ymwybyddiaeth o'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, sy'n cael ei chynnal gan y Comisiynydd.

Ond aiff pethau'n fwy cymhleth pan fod yna enwau gwahanol yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer yr un dref neu ddinas. Mae gan bob tref, pentref a dinas ei hanes unigryw ei hun, ac mae'r hanes hwnnw'n perthyn i sut mae ei enw neu enwau wedi gwreiddio, datblygu a newid dros y canrifoedd.

Mae'r deisebydd yn cyfeirio'n benodol at enghraifft Caerdydd, sydd ynddo'i hun heb fod yn syml o bell ffordd. Mae'r enw modern Cymraeg *Caerdydd* yn dod o'r ffurf Gymraeg ganoloesol, *Caerdyf*, sydd yn y Saesneg wedi datblygu'n *Cardiff* (*gyda'r 'f' Cymraeg yn cael ei drosi'n 'ff' Saesneg*). O hepgor yr enw 'Saesneg' modern gallwn ddadlau ein bod hefyd yn dileu cysylltiad â ffurf ganoloesol enw'r ddinas.

Mae'r rhain yn faterion lleol yn aml iawn, ac er fy mod yn cefnogi'n llwyr yr arfer o ddefnyddio'r gair "Senedd" yn unig mewn iaith bob dydd, yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn ogystal â sut mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn defnyddio "Cymru" wrth gyfathrebu yn y ddwy iaith, rwy'n credu bod angen iddyn nhw ganfod ffordd o adlewyrchu'r ystod eang o safbwyntiau a goblygiadau sy'n bodoli, fel yr awgrymir gan y paragraff blaenorol.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

P-06-1207 Start referring to Welsh cities and towns by their Welsh names, Correspondence – Petitioner to Committee, 08.11.21

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

Jack Sargent MS
Chair – Petitions committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN

2 November 2021

Dear Jack,

I would firstly like to thank you for taking the petition into consideration. It means a great deal to me that the voices of myself and many others, who join me as Welsh speakers, are being acknowledged. It is crucial that necessary steps are taken to protect what is left of our language after the hardships it has faced. Understandably so, current efforts towards the preservation of the Welsh language are fairly recent and feedback should be welcomed. Having grown up in a predominantly Welsh community, listening to others around me and exploring various ways on how efforts towards the preservation of the language could be improved makes me keen to bring possible new ideas into your Cymraeg 2050.

I agree, the opportunity should be taken to ensure that Welsh cities and towns are also referred to by their Welsh names by Welsh Ministers and the Welsh Government. I cannot say I disagree with any aspect that has been presented in the letter. However, towards the end of the letter I notice that the issue with regarding towns by their Welsh name and discarding the English given name could be considered erasing the connection with Medieval Wales. It is understandable that some town names will have historical connections yet, its documentation will remain we cannot guarantee that our language will do the same in the later future since it has proved to be in immense danger in the past. Not only that, but the Welsh language cannot be compared to a historical era or a period in history. It is common for historical eras to disappear naturally; however, we should be reminded that our language did not disappear naturally. I also notice you agree with the use of the term 'Cymru' and 'Senedd' – should you investigate the term 'Prydain' for Britain, I strongly believe it should become another popularised Welsh term in Wales and further establishes the connection to our country.

Before I go into slightly more detail on the Welsh language, I would like to state reasoning behind the petition, I wrote this petition a while ago after reflecting upon my experience in education. Of course, Welsh is compulsory for Key Stage 4 learners in schools across Wales, due to the government's initial decision to do so in 1999. However, during my time in education I had found that hatred towards Welsh as a subject was not uncommon – it was rather disheartening. The main argument my peers had for this hatred was that it was never used by anyone outside of the education system it was only by paying closer attention to government figures in Wales, I had noticed that the language was rarely ever used. Whilst I wholeheartedly agree that making Welsh a compulsory subject was a step in the right direction, myself – and many others – do not believe that the current fault lies within the legislation but rather the attitude possessed by public figures in Wales as stated, by Welsh Ministers. It is for this reason I made the decision to start the petition.

Tudalen y pecyn 56

I also notice you cover education in Wales, and it would be a missed opportunity, especially whilst on topic, not to discuss key points on how Welsh is taught. Many would join me in agreement that the way second language Welsh is taught at GCSE level is not taught very well rather than help young people become enthusiastic about their heritage and home, it makes young people gain an alarming disinterest in the language which can have an overall negative affect in the future – for example, they would not want their children to attend Welsh schools due to their negative experience, many people have already witnessed this consequence in action. I think there are many possible ways to combat this. Firstly, I do not believe that we have a strong sense of identity as a nation. Not many Welsh children are aware of their heritage and just how wonderful it truly is and it is due to this reason they do not have a connection to the language. You cannot have language without history and therefore, I think it is crucial to teach young people of key Welsh figures such as Gwenllian ferch Gruffydd, Betsi Cadwaladr, Owain Glyndwr, Roald Dahl. Not only that, but Welsh mythology will draw children and young people into learning the language – stories such as Rhiannon, Y Tylwyth Teg, and Branwen from the Mabinogion will not fail in establishing a connection between language and identity due to its intriguing nature. Of course, it would mean the most if you consider what I have discussed in this letter, many in this country wish to see a change in our education and have been eager to see this change for generations.

I understand that a some will disagree with what I put forward to you however, it's important that you do not alter the necessities of Wales to suit a small minority.

I would like to take the time to thank you, once again, for taking my petition into consideration, it means a great deal to me. I hope, as do many others, that Wales sees some significant and impactful changes in the years to come.

Sincerely,

Madison Lorraine

P-06-1210 Ataliwch Lywodraeth Cymru rhag cyflwyno terfyn cyflymder cyffredinol o 20 milltir yr awr

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2020
Petitions Committee | 15 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1044-10

Rhif y ddeiseb: P-06-1210

Teitl y ddeiseb: Ataliwch Lywodraeth Cymru rhag cyflwyno terfyn cyflymder cyffredinol o 20 milltir yr awr

Geiriad y ddeiseb: Awdurdodau lleol a ddylai bennu terfynau cyflymder, a dim ond lle bo'n angenrheidiol y dylent fod yn 20mya.

1. Cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd a'r awdurdod traffig sy'n gyfrifol am rwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd lleol.

Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau cyfredol ynghylch pennu terfynau cyflymder lleol. Yn unol â'r canllawiau hyn, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu terfynau cyflymder ar gefnffyrdd. Awdurdodau lleol sy'n



gyfrifol am bennu terfynau cyflymder ar ffyrdd lleol, gyda therfynau 20mya yn cael eu hannog lle bo hynny'n briodol.

Mae'r canllawiau hefyd yn gwahaniaethu rhwng terfynau a pharthau 20mya. Mae parthau 20mya wedi'u cynllunio i fod yn "hunanorfodol" yn sgil y mesurau gostegu traffig a gaiff cael eu cyflwyno ynghyd â'r newid yn y terfyn cyflymder. Mae cyflwyno terfyn 20mya yn golygu newid y terfyn cyflymder yn unig, ac nid yw'r drefn honno'n cynnwys unrhyw fesurau ffisegol i leihau cyflymder cerbydau yn yr ardal dan sylw.

Mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mai 2019, dywedodd y Prif Weinidog fod "Llywodraeth Cymru o'r farn mai 20 mya ddylai fod y terfyn cyflymder rhagosodedig ar gyfer ardaloedd preswyl." Cydnabu'r Prif Weinidog hefyd fod angen i awdurdodau lleol gael disgrisiwn i gynnal terfyn o 30mya ar "brif lwybrau allweddol".

Effaith terfynau 20mya

Mae'r dystiolaeth ynghylch effaith terfynau a pharthau 20mya ar faterion fel cyfraddau anafiadau, ansawdd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi cael ei disgrifio'n aml fel tystiolaeth gymysg.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ar sefyllfa'r dystiolaeth ar derfynau cyflymder 20mya mewn perthynas â'r effeithiau ar ddiogelwch ar y ffyrdd, teithio llesol a llygredd aer. Hefyd yn 2018, cyhoeddodd Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU waith ymchwil ar effeithiolrwydd y terfynau hyn. Canfu ymchwil Llywodraeth y DU:

...there is insufficient evidence to conclude that there has been a significant change in collisions and casualties following the introduction of 20mph limits in residential areas...

Yn ôl ymchwil diweddar gan IAM RoadSmart, elusen sy'n hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd, mae cefnogaeth yn y DU ar gyfer gostwng y terfyn cyflymder ar bob ffordd drefol o 30mya i 20mya wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn ôl Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil y sefydliad, nid yw cyflwyno terfyn 20mya cyffredinol, o reidrwydd, yn lwybr delfrydol i'w droedio. Dywedodd:

Each situation needs to be decided on a case-by-case basis, with local considerations and consultation playing an important role.

Mae'r gwahaniaeth rhwng terfyn 20mya a pharth 20mya hefyd yn bwysig wrth ystyried y dystiolaeth sydd ar gael. Yn ôl ymchwil gan Brifysgol Queen's, er bod dystiolaeth glir bod cyflwyno parthau 20mya, gan gynnwys mesurau gostegu traffig, yn lleihau amllder a difrifoldeb gwrthdrawiadau ac anafiadau, mae diffyg dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd cyflwyno terfynau 20mya sy'n cael eu gorfodi drwy arwyddion yn unig.

Yn 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried a ddylai 20mya ddod yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl Roedd ei adroddiad yn trafod amrediad o dystiolaeth ac yn cynnwys nifer o ddadleuon o blaid gyflwyno'r newid hwn. Dywed yr adroddiad:

Disgwylir y daw manteision sylweddol o ran diogelwch ar y ffyrdd yn sgil galluogi mwy o lawer o'r terfynau 20mya, yn enwedig mewn cymdogaethau difreintiedig. Yn y tymor hwy, disgwylir i ostyngiadau yn y canfyddiad o berygl ffyrdd arwain at fwy o gerdded a beicio a fydd yn gwella iechyd y cyhoedd ac yn disodli rhai teithiau byr mewn car... Mae mwy o gerdded a beicio hefyd yn debygol o arwain at fwy o gydlyniant cymdeithasol sy'n dod â buddiannau cymdeithasol ac iechyd pellach. Bydd cyflymderau is yn arwain at leihad mewn sŵn traffig, tra bydd effeithiau ar ansawdd aer yn niwtral ar y gwaethaf a bydd cynnydd mewn amserau teithio yn fach...

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Fel y nodwyd eisoes, yn 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried a ddylai 20mya ddod yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y grŵp <https://llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-ir-argymhellion-wnaed-yn-adroddiad-grwp-tasglu-20mya>, gan gynnwys yr argymhelliad y dylid lleihau'r terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig (y rhai mewn ardaloedd preswyl sydd â system o oleuadau stryd heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd) o 30mya i 20mya.

Mewn llythyr at y Cadeirydd, dyddiedig 14 Hydref, nododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd fod cam cyntaf y broses o gyflwyno terfyn o 20mya wedi dechrau, a hynny ar ffurf cynlluniau peilot mewn wyth cymuned ledled Cymru. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn cael eu defnyddio i gasglu data, gyda'r nod o gyflwyno'r cynllun yn llawn yn 2023. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog fod cyllid grant parhaus ar gael ar gyfer y cynlluniau peilot hyn.

Mae llythyr y Dirprwy Weinidog hefyd yn nodi'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyngoriad ar y cynigion yn ddiweddar.

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ym mis Gorffennaf 2020, trafododd y Senedd y syniad o gyflwyno terfynau cyflymder diofyn o 20mya.

Ym mis Medi 2021, cyflwynodd Andrew RT Davies AS gwestiwn ysgrifenedig yn gofyn pa ganran o rwydwaith ffyrdd Cymru fyddai'n dod o fewn y terfyn cyflymder arfaethedig o 20mya. Roedd ymateb y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd fel a ganlyn:

There are a total of 34,850km of public road in Wales. In terms of the 20mph project, it is anticipated:

- 60% will be out of scope as it has a speed limit of 40mph or above.
- 35% will automatically change from 30mph to 20mph (existing 30mph, not A or B classified).
- 5% will be reviewed through an exception process (existing 30mph, A or B classified), of which a small proportion would be expected to be classed as an exception to remain at 30mph. The majority will become 20mph.
- <1% is already 20mph

It is anticipated, the changes will therefore affect close to 40% of the total length of Wales road network.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref LW/11433/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

14 Hydref 2021

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Medi ynghylch Deiseb P-06-1210 Ataliwch Lywodraeth Cymru rhag cyflwyno terfyn cyflymder cyffredinol o 20 milltir yr awr.

Rydym wedi gwneud cynnydd o ran lleihau marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd dros 21 mlynedd datganoli, ond er gwaethaf ein hymdrechion sylweddol, yn ystod 2018 digwyddodd y gyfran uchaf o'r holl anafusion (50%) ar ffyrdd 30mya. Ni ellir caniatáu hyn ac mae'n rhaid i ostyngiad i 20mya ar ein ffyrdd preswyl a ffyrdd trefol prysur eraill i gerddwyr fod y ffordd ymlaen.

Mae Cymru bellach ar flaen y gad o ran cyflymder diogel gyda'i chynllun i gyflwyno terfynau cyflymder o 20mya ar bob ffordd gyfyngedig yn 2023. Mae'n rhoi Cymru mewn sefyllfa unigryw yn y byd ar ôl mabwysiadu deddfwriaeth llesiant a theithio llesol sy'n cefnogi dull gweithredu Vision Zero o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd, yn seiliedig ar y gred nad oes unrhyw farwolaeth neu anaf difrifol yn dderbyniol ar ffyrdd.

Ar hyn o bryd rydym yn treialu terfynau cyflymder o 20mya mewn wyth anheddiad ledled Cymru gan ganiatáu inni oresgyn unrhyw faterion nas rhagwelwyd cyn inni fwrw ymlaen â'r camau gweithredu cenedlaethol arfaethedig ym mis Ebrill 2023. Rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y terfyn cyflymder diodyn o 20mya a ddaeth i ben ar 1 Hydref. Mae swyddogion bellach yn casglu'r canlyniadau a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd eleni.

Mae cyfanswm o 34,850km o ffyrdd cyhoeddus yng Nghymru. O ran y prosiect 20mya, rhagwelir yr isod:

- Bydd 60% o ffyrdd allan o gwmpas y prosiect gan fod ganddynt derfyn cyflymder o 40mya neu uwch.
- Bydd 35% o ffyrdd yn newid yn awtomatig o 30mya i 20mya (ffyrdd 30mya presennol, ddim yn ffyrdd dosbarthiadol A neu B).
- Bydd 5% o ffyrdd yn cael eu hadolygu drwy broses eithrio (ffyrdd 30mya presennol, ffyrdd dosbarthiadol A neu B), ac o'r rheini byddai disgwyl i gyfran fach ohonynt gael eu hystyried yn eithriad i aros ar 30mya. Bydd y mwyafrif yn dod yn 20mya.
- Mae <1% o ffyrdd eisoes yn 20mya.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 62
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhagwelir y bydd y newidiadau felly'n effeithio'n agos at 40% o gyfanswm hyd rhwydwaith ffyrdd Cymru. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith ymgynghori helaeth gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, gyda'r cyfarfod diweddaraf gydag Arweinwyr yn cael ei gynnal ar 7 Hydref.

Rwyf yn llwyr sylweddoli bod gwneud 20mya y terfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl yn gam beiddgar. Fodd bynnag, mae lleihau cyflymder yn lleihau damweiniau ac yn achub bywydau. Ochr yn ochr â hyn bydd ansawdd bywyd yn gwella, gan wneud lle ar ein strydoedd ar gyfer teithio llesol mwy diogel a bydd yn annog y broses o newid dulliau deithio yr ydym yn ceisio'i gyflawni fel rhan o [Lwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru](#).

Yn gywir



Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

P-06-1211 Dylid cael gwared ar y camerâu cyflymder cyfartalog a'r terfyn cyflymder o 50mya ar yr M4 rhwng Casnewydd a Chaerdydd

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 15 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1044-11

Rhif y ddeiseb: P-06-1211

Teitl y ddeiseb: Dylid cael gwared ar y camerâu cyflymder cyfartalog a'r terfyn cyflymder o 50mya ar yr M4 rhwng Casnewydd a Chaerdydd

Geiriad y ddeiseb: Mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r cynllun i osod camerâu cyflymder cyfartalog a phennu terfyn cyflymder newydd o 50mya ar yr M4 rhwng Casnewydd a Chaerdydd. Mae'n honni y bydd y mesurau hyn yn lleihau damweiniau a llygredd, ac yn lleddfu tagfeydd. Rydym yn mynnu bod y Llywodraeth yn gwyrddroi'r polisi hwn ar unwaith. Dylai'r buddsoddiad dan sylw fynd tuag at fentrau gwyrdd sydd o fudd i'r cyhoedd, yn hytrach na gosod cyfyngiadau arnynt. Y ffordd orau o leddfu tagfeydd yw cynyddu darpariaeth (fel creu lonydd ychwanegol neu adeiladu ffordd osgoi) yn hytrach na lleihau'r galw - a fydd yn niweidio'r economi.



1. Cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd a'r awdurdod traffig sy'n gyfrifol am rwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Mae hyn yn cynnwys gosod terfynau cyflymder ar yr M4 yng Nghymru.

Llygredd aer a therfynau cyflymder

Yn 2018, cafodd Llywodraeth Cymru ei dwyn i'r llys oherwydd achosion o dorri terfynau nitrogen deuocsid (NO₂). Dyfarnodd yr Uchel Lys bod rheoli gormodedd o NO₂ ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yn gyfrifoldeb uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael ag allyriadau NO₂, mae terfynau cyflymder 50mya wedi'u cyflwyno mewn pum safle ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd, gan gynnwys rhwng cyffyrdd 25 a 26 yr M4 yng Nghasnewydd.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad i'r wasg yn awgrymu bod cyflwyno terfynau 50mya ar y safleoedd hyn "eisoes wedi llwyddo i achosi gostyngiad o 47% yn y lefelau nitrogen deuocsid yn yr ardaloedd lle y mae'r effaith yn sylweddol".

Ffordd liniaru'r M4 a Chomisiwn Burns

Mae'r deisebydd yn galw am gael gwared â'r terfyn 50mya yng Nghasnewydd, er mwyn buddsoddi mewn mentrau gwyrdd ac adeiladu lonydd ychwanegol/ffordd osgoi yn lle hynny.

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog na fyddai cynlluniau ar gyfer ffordd liniaru'r M4 yn mynd yn eu blaen. Cyhoeddwyd hefyd y byddai Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Burns ac a elwir yn Gomisiwn Burns) yn cael ei sefydlu i wneud argymhellion ar atebion amgen i broblemau tagfeydd ar goridor yr M4 o amgylch Casnewydd.

Yn ei adroddiad ar gynnydd ym mis Rhagfyr 2019 gwnaeth y Comisiwn dri argymhelliad cychwynol, gan gynnwys y dylai Gweinidogion Cymru:

Gael gwared ar y terfyn cyflymder amrywiol rhwng o amgylch Cyffordd 24 (Coldra) a Chyffordd 28 (Parc Tredegar) a chyflwyno system rheoli cyflymder cyfartalog o 50mya yn yr un manau.

Wrth esbonio'r rhesymeg dros yr argymhelliaid hwn, nododd yr adroddiad:

Rydym wedi ystyried ac wedi modelu amrediad o derfynau cyflymder, gan gynnwys 40mya, 50mya a 60mya. Mae ein dadansoddiadau'n dangos mai 50mya yw'r cyflymder gorau ar gyfer dibynadwyedd amser teithio a chyflymder, gan ystyried hefyd ffactorau eraill megis ansawdd aer, allyriadau a sŵn.

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Comisiwn ei [argymhellion terfynol](#). Disgrifiodd ei gynigion fel "rhwydwaith o ddewisiadau amgen" ac mae ei argymhellion yn canolbwyntio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru [yr holl argymhellion](#) mewn egwyddor ac ym mis Ionawr 2021 sefydlodd [Uned Cyflenwi Burns](#) o fewn Trafnidiaeth Cymru i oruchwylio'r broses weithredu.

Strategaeth Trafnidiaeth Cymru

Ym mis Mawrth 2021 lansiodd Llywodraeth Cymru [Strategaeth Trafnidiaeth Cymru](#). Mae'n cynnwys hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy sy'n rhoi teithio mewn car modur preifat ar waelod y rhestr. Mae hefyd yn gosod targed i gynyddu teithiau a wneir drwy drafndiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio o 32 y cant i 45 y cant erbyn 2040.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mewn llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 25 Hydref, mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn nodi y bydd y terfyn cyflymder o 50mya ar y rhan hon o'r M4 yn cael ei "orfodi gan ddulliau Gorfodi Cyflymder Cyfartalog yn y dyfodol". Mae'r Dirprwy Weinidog yn nodi hefyd y bydd Llywodraeth Cymru, yn hydref 2021, yn ymgynghori ar Gynllun Diweddarau ynghylch y camau y mae'n cymryd i fynd i'r afael ag achosion lle mae'r lefel yn uwch na'r terfyn cyfreithiol o nitrogen deuocsid.

Mae'r llythyr hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Uned Cyflenwi i fwrw ymlaen ag argymhellion Comisiwn Burns.

3. Camau gan Senedd Cymru

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen â ffordd lliniaru'r M4 wedi cael ei godi a'i drafod yn y Senedd sawl tro, gan gynnwys ym mis Mehefin 2019 yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog.

Ym mis Mehefin 2021, cyflwynodd Natasha Asghar AS gwestiwn ysgrifenedig yn gofyn am ddatganiad ynghylch y terfyn 50mya ar yr M4 yng Nghasnewydd. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd gan ddweud fod y terfyn yn cael ei fonitro'n agos gan Gan Bwyll ac mai bwriad y newid oedd:

- helpu i reoli problemau tagfeydd ar hyd y rhan hon o'r M4;
- gwella amseroedd teithio a sicrhau llif traffig llyfnach;
- lleihau'r risg o ddamweiniau; a
- gwella ansawdd aer drwy leihau lefelau allyriadau.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1211
Ein cyf/Our ref LW/11432/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

25 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Medi at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch Deiseb P-06-1211 Dylid cael gwared ar y camerâu cyflymder cyfartalog a'r terfyn cyflymder o 50mya ar yr M4 rhwng Casnewydd a Chaerdydd. Rhoddwyd eich llythyr i mi oherwydd fy nghyfrifoldebau portffolio ac ymddiheuraf am yr oedi wrth ymateb.

Yn dilyn penderfyniad y Prif Weinidog i beidio â bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru'r M4, sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTC) i ystyried y problemau, y cyfleoedd, yr heriau a'r amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn ne-ddwyrain Cymru a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar atebion hirdymor. Dylid nodi bod y Comisiwn yn weithredol annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ystyriodd y Comisiwn ystod eang o opsiynau i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru [argymhellion terfynol](#) y Comisiwn ym mis Ionawr 2021. Gellir dod o hyd i fanylion ar-lein yr [argymhellion y Comisiwn a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru](#).

Mae [Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru](#) yn rhoi pobl a newid hinsawdd wrth wraidd ein system drafnidiaeth. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth, sy'n rhoi pwyslais ar leihau'r angen i deithio ond pan fo angen i bobl deithio, byddant yn defnyddio dulliau trafndiaeth gynaliadwy lle bo hynny'n bosibl.

Mae angen llai o geir ar ein ffyrdd, mwy o bobl yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a mwy o gerdded neu feicio. Lle mae angen seilwaith trafndiaeth newydd arnom, byddwn yn meithrin ffordd newydd o weithio. Byddwn yn defnyddio'r Hierarchaeth Cynllunio Trafnidiaeth Gynaliadwy i roi blaenoriaeth i ateb y galw am deithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 68
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi penodi Simon Gibson CBE yn Gadeirydd Bwrdd Cyflawni Burns, gyda Dr Lynn Sloman MBE yn Is-gadeirydd. Gyda'i gilydd maent yn goruchwyllo hynt y 58 o argymhellion Burns gan yr Uned bwrpasol a sefydlwyd yn Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Uned Gyflawni eisoes yn gwneud cynnydd da. Mae'n defnyddio ffordd newydd o weithio i ddod â rhanddeiliaid amrywiol at ei gilydd i gyflawni'r argymhellion aml-foddol. Er enghraifft:

- Mae wedi edrych ar hyd a lled y llwyth nesaf o waith technegol sydd ei angen i wella Prif Reilffordd De Cymru yn barod ar gyfer Llywodraeth y DU, a'i Hadolygiad Cysylltedd Undebau, i wella'r seilwaith hwn nad yw wedi'i ddatganoli.
- Mae'n datblygu opsiynau ar gyfer gwelliannau blaenllaw i'r seilwaith beicio a bysiau rhwng Caerdydd a Chasnewydd, gan ddwyn ynghyd a chefnogi'r Awdurdodau Lleol.
- Mae'n gweithio gyda Dafydd Trystan, Cadeirydd y Bwrdd Teithio Llesol, i edrych ar opsiynau ar gyfer annog newid mewn ymddygiad.

Cyhoeddwyd ein [Cynllun Aer Glân i Gymru](#) ym mis Awst 2020. Gall llygredd aer effeithio ar iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd naturiol a'r economi, a gall amlygiad i lefelau uchel o nitrogen deuocsid amharu ar lwybrau anadlu'r ysgyfaint, gan gynyddu symptomau'r rhai sy'n dioddef o glefydau'r ysgyfaint. Mae amlygiad tymor byr i nitrogen deuocsid hefyd yn gysylltiedig â mwy o afiachusrwydd cardiofasgwlaidd ac anadlol.

Mae'r amgylchedd wrth wraidd ein penderfyniadau ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â ffynonellau llygredd aer a sicrhau hawl pobl i aer glân yng Nghymru. Gwella ansawdd aer yw un o'r heriau mwyaf cymhleth sy'n ein hwynebu sy'n golygu bod angen gweithredu ar y cyd ar draws sectorau a chymunedau i sicrhau aer glân. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn yn iawn.

Rydym wedi cyflwyno terfynau cyflymder o 50mya mewn 5 lleoliad ledled Cymru i leihau llygredd nitrogen deuocsid, gan gynnwys ar yr M4 rhwng cyffyrdd 25 a 26 a bydd y terfyn cyflymder yn y lleoliad hwn yn cael ei orfodi gan ddulliau Gorfodi Cyflymder Cyfartalog yn y dyfodol. Deallwn y gallai terfynau cyflymder fod yn amhoblogaidd. Fodd bynnag, drwy ein hymchwiliadau, gwyddom ei bod yn debygol mai dyma'r ffordd gyflymaf a mwyaf effeithiol o leihau lefelau nitrogen deuocsid ac mae'n hanfodol bod gyrwyr yn cydymffurfio â'r terfyn cyflymder i leihau lefelau nitrogen deuocsid.

Yr hydref hwn byddwn yn cyhoeddi, yn destun ymgynghoriad, ein Cynllun Diweddarau ar y camau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael ag achosion lle mae'r lefel yn uwch na'r terfyn cyfreithiol o nitrogen deuocsid. Bydd yn manylu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a'r camau nesaf i sicrhau ein bod yn mynd ati ar frys i wella ansawdd aer er budd iechyd y cyhoedd.

Yn gywir,



Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

P-06-1211 Remove the average speed cameras and 50mph speed limit on the M4 between Newport and Cardiff, Correspondence – Petitioner to Committee, 05.11.21

We, the signed in the petition, do not agree with the FM decision not to proceed with the M4 relief road. This should be reconsidered, especially when the UK Government has said they will deal with the issue of traffic on the M4 in this area by widening the Brynglas tunnels and they will pay for it! Frankly, we don't care if it's a desolved matter or not.

That "not to increase supply" decision has forced the use of average speed cameras on the M4.

The logic is clear - if you refuse to increase supply of available road or route alternative on a frequently congested space, then the only two options remaining to improve the flow of traffic are to:

1. Reduce the use of the road by vehicles; and/or
2. Reduce the speed on the road so the required stopping distance between cars is reduced and thus you can fit more cars on the road at the same time.

Mandating the enforced reduction of traffic on these roads would be political suicide and speaks to an assault on freedoms. Although, I note outrageous plans that will essentially have that affect are being considered by the Welsh Government (essentially charging people to use the M4).

Moreover, the only effectively way to enforce a reduction of speed over a prolonged period is the use of average speed cameras. Thus, we have ended up with average speed cameras.

You did not need to spend vast swaths of our money setting up an independent Commission to work this out; I could have told you in five minutes for free. How much was spent on this Commission out of interest?

Why does this Welsh Government not believe in providing more for the Welsh people and instead focus on policies that restrict, reduce and remove opportunity to thrive?

The money should have been spent on increasing capacity of the roads, making Wales a global leader in electric cars/ charging points and incentivising the purchase of electric vehicles. Does the Welsh Government not realise if you charge to use the M4 that the cost will not bother the rich but the poor, who more often than not cannot work from home, will be disproportionately affected. They will have less money in their pockets to aspire to purchase a green electric car and will be forced to extend the use of old, polluting models?

As for average speed cameras, it seems the driving force (pun intended) behind the roll out is not to reduce emissions as the FM has indicated but rather to reduce road

speeds for those who, now older, prefer and feel more comfortable in a slower environment. The Welsh government likes to talk about equality so how many people under 30 years old were part of the commission set up to look at this?

Regarding the environmental impact of average speed cameras on the environment, I have the following questions:

1. Do you have any data on the levels of nitrogen dioxide and other pollutants such as CO₂ on either side (directly next to and up to ten plus miles outside) of average speed camera zones both prior to and after the installation of average speed cameras? Has this been considered previously? If so, please provide full, specific evidence only relevant to the question. It seems to me that people accelerate hard out of average speed zones which may lead to higher levels of pollutant on either side of average speed zones. It also seems as though some people on longer journeys would increase their average speed on parts of their journey that takes place outside average speed zones in order to 'make back time'.
2. What data or research have you conducted into how travelling within an average speed zone affects the behaviour of drivers along the rest of their trip outside of average speed cameras? Has this been considered previously? If so, please provide full, specific evidence only relevant to the question. If this hasn't please justify why this data isn't required to prove average speed cameras are net positive for the environment.
3. What is the actual recorded average speed on average speed zones where the advertised limit is 50mph? Do you have this data and if not, why not? If not, how can you justify your choice of speed limit without this data?
4. Why do we use 50mph limits on average speed zones when numerous academics and NGOs, such as The Energy Saving Trust, suggest 55 - 65mph is the most efficient driving speed and CO₂ emissions are directly related to the amount of fuel burnt? Has this been considered previously? If so, please provide full, specific evidence only relevant to the question.
5. Why do we enforce 50mph limits on sections of downhill motorway where the potential energy of the vehicle location often means it can go faster than 50mph without the use of the accelerator? It would be more efficient to allow the vehicle to coast down the hill, thus removing the idling engine from the high nitrogen oxide area quicker and not wasting the additional fuel burnt to get the vehicle in a position where it has gained potential energy. Has this been considered previously? If so, please provide full, specific evidence only relevant to the question.
6. What is the environmental, financial and congestion implications of enforcing 50mph limits on sections of road where a vehicles potential energy would allow it to travel at a speed faster than 50mph? Have you collected any data on this? Has this been considered previously? If so, please provide full, specific evidence only relevant to the question.
7. What is the increase in time burden for someone travelling along the new

50mph section of the M4 between Newport and Cardiff verses travelling at the previous 70mph limit? If someone were to drive up and down this road every day, over a year how much additional time would they spend driving? What cost would this have on the Welsh economy?

8. How much time does the average Welsh commuter spend stuck in traffic compared to the rest of the UK, Europe and the rest of the World?

9. How many cars per day transited through the area of the M4 in question prior to and after the installation of the average speed cameras? Please justify dates quoted in order to minimise the impact of Covid restrictions.

10. If, as proposed, the average speed cameras improve the flow of cars on the M4 and (with the speed being lower there will be a reduced stopping distance required between cars) thus, more cars can drive on the road simultaneously, will the capacity of the M4 not theoretically be improved at congested times and so the environmental impact will not necessarily be positive? What studies have been done look at possible unexpected outcomes from this policy?

11. Why is banning combustions engine vehicles immediately not a quicker, more effective way to reduce NO2 levels? The letter states average speed cameras are the quickest way to reduce NO2 levels – it seems to just suit the narrative but not be factually true.

I note in the reply the "Three priorities" of the transport strategy were reference but it was not overly clear what these were. I wonder if the Welsh Government has ever heard of "SMART Objectives"? Because "reducing the need to travel" does not seem very smart. I assure you, others and I do not sit in hours of traffic on the M4 as a hobby, we do not do it to get out of the house', we make those trips because they are essential. The reply also states "we need fewer cars on our roads" - can you explain why? Perhaps Lee Waters, as Deputy Minister for Climate Change, would like to inform us if he owns any cars? And if so, will he be stopping by his local We Buy Any Car office in the near future to lead the charge on the reduction of cars? If not, why not? It seems to me we need better transport. Personal transport is by far the most time efficient of the infrastructure is there. The priority should be making that transport electric. The future will clearly be electric, self-driving cars - be that personal or shared. This will be a good future. The Welsh Government should be driving this agenda forward.

The reply talks about giving priority to walking, cycling or public transport ahead of private motor vehicles. Well, last time I checked I was not allowed to walk or cycle on the M4 and my experience of public transport has been slow, expensive and frankly not fit for purpose. Not to mention most of the buses seem to emit similar amounts of emissions from their rear as several burning coalfields combined.

In short, transport infrastructure is critical to a successful, thriving economy. It allows us all to get to work in a timely fashion, to make the most of our free time, gives us more free time, saves us money, allows for the quick response of emergency services and provides us with new opportunities. We should be striving to enhance and build

on existing transport links to maximise all the benefits it can offer, not limiting what we already have. Our focus should be on encouraging the swift transition to renewables and electric vehicles to tackle the threat of poor air quality and climate change. Average speed cameras is robbing Paul to pay Peter, a focus on renewables and electric cars is a win win.

This Welsh Government needs to stop focusing on policies that restrict, reduce and remove opportunity.

I would appreciate full, specific replies to all questions posed, the answers of which should only contain information specifically relevant to the questions asked.

Apologies for any typos etc., some of us work and don't really have time to do this. We're too busy stuck in traffic on the m4 normally in our 'free time' to give views for free, let alone to find enough time in the evening to spell check it

P-06-1213 Dylid gwahardd defnydd hamdden o Seadoo/sgïo jet yng Nghymru. Ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym.

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 15 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1044-13

Rhif y ddeiseb: P-06-1213

Teitl y ddeiseb: Dylid gwahardd defnydd hamdden o Seadoo/sgïo jet yng Nghymru. Ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym.

Geiriad y ddeiseb: Mae ein bywyd gwyllt a'u cynefinoedd eisoes o dan ymosodiad milain gan wareiddiad graddol, ymelwa ar adnoddau, llygredd a newid hinsawdd. Mae caniatáu defnydd heb ei reoli o'r cerbydau hamdden swmlyd, peryglus a llygrol hyn – gan ychwanegu at y difrod hwnnw – yn anghyfrifol! Dydyn nhw ddim yn cynnig unrhyw wasanaeth arall i ddynolryw heblaw cyffro am ennyd. Mae hyn yn wastraffus yn ogystal ag anghyfrifol.

Mae yna achosion o aflonyddwch, ymddygiad ymosodol a niwed bob dydd i ddefnyddwyr eraill y môr a bywyd gwyllt, gydag ambell achos yn cael ei gofnodi ac eraill ddim. Mae yna lawer o achosion o niwed corfforol a hyd yn oed marwolaeth i anifeiliaid a bodau dynol. Prin bod y defnydd hamdden o'r cerbydau pŵer uchel peryglus hyn yn cael ei reoli o gwbl. Rhaid eu gwahardd o bob maes, ac eithrio meysydd posibl bach a phenodol, sydd wedi'u neilltuo i'r bobl hunanol hynny niweidio'u hunain yn unig. Gallai hynny fod yn rhy anodd. Os mai dyna'r achos, dylid eu gwahardd yn gyfan gwbl yng Nghymru.



1. Cefndir

Nid oes system reoleiddio genedlaethol – naill ai ar lefel Cymru neu'r DU – sy'n llywodraethu perchnogaeth a defnydd sgïau jet neu 'badau dŵr personol' mewn dyfroedd mewndirol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd gellir cyfyngu'r hawl i fordwyo o dan y gyfraith gyffredin mewn dyfroedd llanw trwy is-ddeddfau a gyflwynwyd gan awdurdodau harbwr ac awdurdodau lleol.

Mae'r canlynol ymhlith pwerau awdurdodau lleol:

- Pwerau *Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936* i wahardd llongau rhag dyfroedd ymdrochi;
- Pwerau *Deddf Iechyd y Cyhoedd 1961* i reoleiddio badau pleser glan môr; a
- Phwerau *Deddf Llywodraeth Leol 1972* i fynd i'r afael â niwsans.

Mae pwerau awdurdod harbwr yn cynnwys y pŵer i wneud cyfarwyddiadau o dan *Ddeddf Mordwyo Morol 2013*.

Mae'r Bartneriaeth Badau Dŵr Personol yn nodi bod llawer o awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael i reoleiddio'r defnydd o sgïau jet – er enghraifft trwy wneud trwyddedau'n ofynnol. Mae wedi cyhoeddi canllaw i reoli sgïau jet ar gyfer awdurdodau lleol ac harbwr, yn ogystal â chynghor a hyfforddiant ar gyfer defnyddwyr hamdden.

Mae gan Sgomer, sef unig Barth Cadwraeth Forol, Cymru is-ddeddfau penodol i gyfyngu ar gyflymder llongau o fewn y parth hwn, er mwyn gostwng aflonyddwch i fywyd gwylt y môr. At hynny, mae ganddi god ymddygiad gwirfoddol sy'n nodi nad yw sgïo dŵr, sgïo jet a gweithgareddau tebyg yn dderbyniol o fewn y parth.

